**Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol** **Atodiad 2**

Penderfynodd y Grŵp Buddsoddi Strategol wahodd ceisiadau yn unol â'r dyraniadau bloc y cytunwyd arnynt eisoes gan wasanaethau. Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu 10 o geisiadau dros nifer o gyfarfodydd.

Cafodd pob cais ei gyflwyno gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Mae'r dyraniadau arfaethedig wedi eu manylu yn Atodiad 1 ac mae crynodeb ohonynt fel a ganlyn:

- Y bwriad yw dyrannu £1.2 miliwn i gefnogi Cymorth Tai Sector Preifat. O hyn, bydd £226k dros dro yn ddarostyngedig i gadarnhad o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru**.** Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn bennaf ar ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- Mae dyraniad o £220,000 yn cael ei argymell ar gyfer Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Theleofal. O hyn, bydd £98k dros dro yn ddarostyngedig i gadarnhad o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Targedir y cyllid hwn at alluogi'r henoed a'r anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

- Y bwriad yw dyrannu £100k i'r Ystâd Amaethyddol i gefnogi rhesymoli'r ystâd a mynd i'r afael â materion Iechyd a Diogelwch gan gynnwys arolygon a gwaredu Asbestos. O hyn, bydd £59k dros dro yn ddarostyngedig i gadarnhad o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (£9k) a gwaredu asedau yn y dyfodol £50k).

- Mae cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel Cael Gwared ar Asbestos, Gwaith Asesu Risg Tân, Cydraddoldeb ac ati. Argymhellir bod £3.164miliwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw Cyfalaf O hyn, bydd £890k dros dro yn ddarostyngedig i gadarnhad o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Bwriedir hefyd dyrannu £1.345 miliwn i waith cynnal a chadw cyfalaf adeiladau nad ydynt yn ysgolion. O hyn, bydd £208k dros dro yn ddarostyngedig i gadarnhad o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (£188k) a gwaredu asedau yn y dyfodol (£20k). Argymhellir ymhellach bod y Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu union ddyraniadau i'r gwaith penodol sydd eu hangen, yn nhrefn blaenoriaeth. Mae'r dyraniadau llawn a fwriedir (gyda'r arian grant ychwanegol tybiedig) yn diwallu'r gwaith blaenoriaeth mwyaf a nodwyd ar draws yr ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion.

- Bydd gofyn i'r Cyngor gymeradwyo £100,000 ar 29 Ionawr 2019 ar gyfer Priffyrdd fel rhan o ddyraniad Cynllun Corfforaethol 2019/20. Bydd hyn yn caniatáu gwariant cyfalaf o £1.750 miliwn.

- Yn ogystal â hyn, bwriedir dyrannu dyraniad bloc o £710,000 ar gyfer atgyweiriadau strwythurol ac atgyweiriadau eraill, gan gynnwys cynnal a chadw

priffyrdd, goleuadau stryd a phontydd. O hyn, bydd £166k dros dro yn ddarostyngedig i gadarnhad o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Hefyd wedi'i gynnwys o fewn yr argymhelliad hwn mae £325k pellach ar gyfer atgyweirio strwythurau pont. O hyn, bydd £43k dros dro yn ddarostyngedig i gadarnhad o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Dyma drydydd blwyddyn Project Ôl-Groniad Strwythur Priffyrdd deng mlynedd.

- Argymhellir dyraniad o £186,000 i gynnal gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd. O hyn, bydd £60k dros dro yn ddarostyngedig i gadarnhad o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

- Ystyriodd y Grŵp Buddsoddi Strategol gynnig ar gyfer parhad rhaglen chwe blynedd o ailosod yr holl lampau goleuadau stryd o fewn Sir Ddinbych gyda lampau LED newydd. Dechreuodd y rhaglen yn 2015/16 a bydd yn costio cyfanswm o £1.5 miliwn, gan ddarparu arbedion sylweddol ar gostau ynni a chostau cynnal a chadw parhaus. Ariennir y cynllun drwy fenter cyllid Salix y Llywodraeth, sy'n darparu benthyciadau di-log ar gyfer prosiectau ynni effeithlon, a bydd yn cael ei ad-dalu gan ddefnyddio'r arbedion a gynhyrchir. Mae angen ceisiadau blynyddol am gyllid Salix, ac mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell cyflwyno cais i gael benthyciad Salix ar gyfer costau pumed blwyddyn sydd hyd at £220,000 i'w ad-dalu dros 6 blynedd.

- Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell cynnal y dyraniad a neilltuwyd ar gyfer unrhyw argyfyngau annisgwyl, sef £0.5m, yn unol â 2018/19.

- Ar 20 Tachwedd 2018 rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i dderbyn cynnig grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyn Westy Savoy a Marchnad y Frenhines, Gwesty a Theatr yn y Rhyl. Mae caffael a gwaith dymchwel yn cael ei ariannu 100% yn allanol. Fodd bynnag, oherwydd amseru'r dyfarniadau grant, argymhellir bod £900k yn cael ei roi i un ochr nes bydd cyllid allanol yn cael ei gadarnhau.